

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

# Bwletin Allforio Blynyddol Bwyd a Diod Cymru 2020

# Uchafbwyntiau

ROEDD ALLFORION BWYD A DIOD CYMRU YN WERTH **£550M** YN 2020.

Y PRIF GYRCHFANNAU ALLFORIO OEDD **IWERDDON, FFRAINC A'R ISELDIROEDD**

BU GOSTYNGIAD O **£20M** MILIWN MEWN ALLFORION BWYD A DIOD RHWNG 2019 A 2020,

SEF GOSTYNGIAD O **3.5%**[1]

MAE'R GWERTH WEDI CYNYDDU O **£115 MILLION** ERS 2016

BU'R DU YN ALLFORIO GWERTH BRON I **£21.7BN** O FWYD A DIOD YN 2020,



GOSTYNGIAD O **9.9%** ERS 2019.


MAE'R GWERTH WEDI CYNYDDU GAN **£1.4 BILIWN** ERS 2016

Y CATEGORÏAU ALLFORIO OEDD Â'R GWERTH UCHAF YN 2020 OEDD CIG A CHYNNYRCH CIG **(£199M)**

A

CHYNNYRCH LLAETH AC WYAU ADAR **(£106M)**

AETH **75%** O WERTH ALLFORION BWYD A DIOD O GYMRU I'R UE



1. Er ei fod yn debygol i'r coronafeirws a Brexit gael effaith ar allforion bwyd a diod o Gymru yn 2020, mae'n anodd meintioli'r effaith uniongyrchol. O ystyried hyn, mae'n werth cofio y gallai'r ffactorau hyn fod wedi effeithio ar unrhyw newidiadau o flwyddyn i flwyddyn, ond ni ellir ei ddatgan yn sicr.


OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG43083 ISBN digodol: 978-1-80391-612-5

# Dadansoddiad o Gategorïau'r Cynnyrch

Y tri chategori allforio mwyaf gwerthfawr ar gyfer bwyd a diod Cymru yn 2020 oedd Cig a Chynnyrch Cig (£199m), Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar (£106m) a Chynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol (£74m). Y categori gyda'r cynnydd canrannol mwyaf ers 2019 oedd Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl, gyda chynnydd o 82% o £7m i £12m. Diodydd oedd â'r gostyngiad canrannol mwyaf o flwyddyn i flwyddyn, gan ostwng 36% o £32m i £20m[2].

Mae cyfansoddiad cyfanswm yr allforion bwyd a diod yn amrywio rhwng Cymru a'r DU, gyda sectorau penodol yng Nghymru yn gyfran fwy o lawer o gyfanswm yr allforion bwyd a diod o'u cymharu â'r DU. Cig a Pharatoadau Cig yw'r categori mwyaf i Gymru, sy'n cyfrif am 36% o'r gwerth allforio bwyd a diod, ac yna Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar gyda chyfran o 19% o'r holl allforion bwyd a diod. Ar gyfer y DU, Diodydd yw'r categori sydd â'r gyfran uchaf ar 30%, ac yna Cig a Pharatoadau Cig gyda 12%. Y categorïau isaf ar gyfer Cymru yw Olew a Braster (0.4%) a Choffi, Te, Coco, Sbeis a Chynnyrch Ohonynt ar 2%. Ar gyfer y DU y categorïau isaf yw Olew a Braster ar 1.8%, a Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl ar 1.9%.

## Cyfran yr Allforion Bwyd a Diod yn ôl categori, 2020




2. Mae'r holl gymariaethau blynyddol yn cymharu gwerthiant gwirioneddol. Nid yw ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi cael eu haddasu i ystyried chwyddiant.

# Dadansoddiad o'r Cyrchfannau

Mae wyth o'r deg cyrchfan uchaf ar gyfer bwyd a diod Cymru o fewn yr UE. Y ddwy wlad nad ydynt yn rhan o'r UE yw UDA (8fed) a Thwrci (10fed).


## 10 Gwlad Uchaf yn ôl gwerth allforion bwyd a diod (£ miliynau), 2020

| Safle | Gwlad | Gwerth Allforio | % o Gyfanswm Allforion Bwyd a Diod |
|---|---|---|---|
| 1 | Iwerddon | 106 | 19% |
| 2 | Ffrainc | 72 | 13% |
| 3 | Yr Iseldiroedd | 53 | 10% |
| 4 | Yr Almaen | 51 | 9% |
| 5 | Yr Eidal | 26 | 5% |
| 6 | Sbaen | 25 | 5% |
| 7 | Gwlad Belg | 21 | 4% |
| 8 | UDA (gan gynnwys Puerto Rico) | 20 | 4% |
| 9 | Gwlad Pwyl | 16 | 3% |
| 10 | Twrci | 14 | 3% |
| Cyfanswm yr Allforion Bwyd a Diod | | 550 | |

Source: Welsh Government analysis of HM Revenue & Customs Regional Trade in Goods statistics

Mae 75% o allforion bwyd a diod Cymru i wledydd o fewn yr UE. Yr ail ranbarth a'r trydydd rhanbarth gwerth uchaf yw Asia ac Ynysoedd y De (7%, £36 miliwn) a'r Dwyrain Canol a Gogledd Affrica (6%, £33 miliwn) yn y drefn honno.

## Gwerth Allforion Bwyd a Diod Cymru yn ôl Rhanbarth 2020 (£ miliynau a % o'r cyfanswm)




# Cyrchfannau allforio yn yr UE

Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i'r UE werth £412m yn 2020, gostyngiad o £19m ers 2019. Mae hyn yn cyfrif am 75% o gyfanswm gwerth allforion bwyd a diod Cymru. Mae'r DU yn allforio 61% o nwyddau bwyd a diod i'r UE, gan ddangos bod Cymru'n dibynnu fwy ar wledydd yr UE na'r DU ar gyfer allforion bwyd a diod.

Gweriniaeth Iwerddon oedd y gyrchfan gwerth uchaf o hyd, gwerth £106m, sy'n cyfrif am 19% o'r holl allforion bwyd a diod. Roedd cyrchfannau uchaf eraill yr UE yn cynnwys Ffrainc (£72m), yr Iseldiroedd (£53m), yr Almaen (£51m) a'r Eidal (£26m). Mae'r 5 uchaf hyn gyda'i gilydd yn cyfrif am 56% o allforion bwyd a diod Cymru.


## Allforion Bwyd a Diod o Gymru i Wledydd yr UE (£ miliynau)



Yr allforion â'r gwerth uchaf i gyrchfannau yr UE yn 2020 oedd Cig a Chynnyrch Cig (£161 miliwn), Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar (£78 miliwn), a Chynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol (£42 miliwn).

Ar draws pob categori bwyd, mae mwyafrif y cyrchfannau allforio o fewn yr UE. Llysiau a ffrwythau sy'n dibynnu fwyaf ar allforio i'r UE, gyda 87% o'r gwerth yn dod o wledydd yn yr UE. Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol sy'n dibynnu leiaf ar allforio i'r UE, gyda 58% o werth yr allforion o wledydd yr UE.

## Dibyniaeth Allforion ar y UE ar ôl Sector, 2020



# Cyrchfannau allforio y tu allan i'r UE


Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i wledydd y tu allan i'r UE werth £138 miliwn yn 2020, sy'n ychydig o ostyngiad o £140 miliwn yn 2019. Fodd bynnag, mae hyn yn gynnydd sylweddol dros y tymor hir, gan gynyddu o £62m ers 2016.

Y prif gyrchfannau nad oeddent o fewn yr UE ar gyfer allforion bwyd a diod o Gymru oedd UDA (£20 miliwn), Twrci (£14 miliwn), Awstralia (£10 miliwn), Saudi Arabia (£9 miliwn), a De Korea (£6 miliwn). Mae'r 5 gwlad hyn yn cyfrif am 43% o'r holl allforion bwyd a diod o Gymru i wledydd y tu allan i'r UE, ac 11% o gyfanswm gwerth yr allforion bwyd a diod o Gymru.

Y tri chategori gwerth uchaf o ran allforion bwyd a diod o Gymru i wledydd nad oeddent o fewn yr UE oedd Cig a Chynnyrch Cig (£38 miliwn), Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol (£31 miliwn) a Chynnyrch Llaeth ac Wyau Adar (£28 miliwn).

Rhwng 2014 a 2020 allforion bwyd a diod o Gymru i Dwrci welodd y newid mwyaf, gan gynyddu o £14m. Dilynir hyn gan UDA (cynnydd o £9m) a Saudi Arabia (cynnydd o £8m). Y cynnydd mwyaf rhwng 2019 a 2020 hefyd yw Twrci (cynnydd o £3m), ac yna De Korea (cynnydd o £2m) a'r Swistir (cynnydd o £2m).

## Gwerth Allforion Bwyd a Diod Gymru i Ranbarthu y Tu Allan i'r UE , 2020



# Cyrchfannau allforio yn yr UE

## UDA



Roedd allforion bwyd a diod i'r UDA yn werth £20m yn 2020, sy'n ychydig o ostyngiad o £0.1m ers 2019. Fodd bynnag, cynyddodd allforion o £9m ers 2014. Y categori oedd â'r gwerth uchaf oedd Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol, sef £11.5m. Roedd allforion bwyd a diod y DU i'r UDA yn werth £1.9 biliwn yn 2020.

## Awstralia



Roedd allforion i Awstralia yn werth £10m yn 2020, gan gynyddu o £1m ers 2019, a £5m ers 2014. Allforion Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol oedd y categori gwerth uchaf yn 2020, ar £6m, ac yna Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar ar £2m. Mae'r DU yn allforio £441m o nwyddau bwyd a diod i Awstralia.

## Saudi Arabia



Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i Saudi Arabia yn werth £9m yn 2020, gan ostwng ychydig o £0.1m ers 2019. Fodd bynnag, cynyddodd o £8m ers 2014. Y categori allforio gwerth uchaf yw Cig a Chynnyrch Cig ar £5m. Mae'r DU yn allforio £212m o nwyddau bwyd a diod i Saudi Arabia.

## De Corea




Roedd allforion i Dde Korea yn werth £6m yn 2020, gan gynyddu o £2m ers 2019, sef yr ail gynnydd gwerth mwyaf gan wlad o flwyddyn i flwyddyn. Y categori allforio gwerth uchaf i Dde Korea yw cynnyrch Pysgod, sy'n werth £5m. Mae'r DU yn allforio £161m o fwyd a diod i Dde Korea.

## Twrci



Roedd allforion bwyd a diod i Dwrci werth £14m yn 2020, sy'n gynnydd o £3m ers 2019, a £14m ers 2014. Y categori gwerth uchaf a allforir Dwrci yw Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar, gwerth £10.5m. Mae'r DU yn allforio £136m o fwyd a diod i Dwrci.

## Japan



Roedd allforion bwyd a diod o Gymru i Japan yn werth £3m yn 2020, sy'n ostyngiad o £0.3m ers 2019, ond yn cynyddu o £1.6m ers 2014. Y categori gwerth uchaf a allforir i Japan yw Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar, sy'n werth £1.6m. Mae'r DU yn allforio £284m o fwyd a diod i Japan.

# Atodiad A. Tablau Data

## Gwerth allforion bwyd a diod ac holl allforion Cymru a'r DU (£ miliwn), 2016–2020

| | Cymru | | | DU | | | Cymru fel % o'r DU | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Bwyd a Diod | Holl Allforion | % G'swm Cymru | Bwyd a Diod | Holl Allforion | % G'swm Cymru | Bwyd a Diod | Holl Allforion |
| 2016 | 436 | 14,630 | 3 | 20,289 | 290,946 | 7% | 2.1% | 5% |
| 2017 | 529 | 16,479 | 3.2 | 22,201 | 328,302 | 6.8% | 2.4% | 5% |
| 2018 | 539 | 17,190 | 3.1 | 22,897 | 339,506 | 6.7% | 2.4% | 5.1% |
| 2019 | 570 | 17,773 | 3.2 | 24,054 | 347,831 | 6.9% | 2.4% | 5.1% |
| 2020 | 550 | 13,443 | 4.1 | 21,677 | 293,589 | 7.4% | 2.5% | 4.6% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

## Pwysau allforion bwyd a diod a chyfanswm allforion, Cymru a'r DU (Tunnelli), 2016–2020

| | Cymru | | | DU | | | Cymru fel % o'r DU | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Bwyd a Diod | Holl Allforion | % G'swm Cymru | Bwyd a Diod | Holl Allforion | % G'swm Cymru | Bwyd a Diod | Holl Allforion |
| 2016 | 203,000 | 7,846,600 | 2.6 | 15,668,200 | 154,477,400 | 10.1 | 1.3 | 5.1 |
| 2017 | 201,400 | 7,515,100 | 2.7 | 13,016,200 | 160,839,100 | 8.1 | 1.5 | 4.7 |
| 2018 | 228,300 | 8,309,900 | 2.7 | 13,393,300 | 160,337,600 | 8.4 | 1.7 | 5.2 |
| 2019 | 271,400 | 8,664,400 | 3.1 | 15,085,000 | 154,346,100 | 9.8 | 1.8 | 5.6 |
| 2020 | 224,300 | 7,828,900 | 2.9 | 13,076,200 | 145,994,600 | 9 | 1.7 | 5.4 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

## Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul cyrchfan (£ miliwn), 2016–2020

| Blwyddyn | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2020 o'i chymharu â: 2016 % newid | 2019 % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| UE | 360 | 409 | 395 | 431 | 412 | ↑15% | ↓4% |
| Asia ac Ynysoedd y De | 20 | 25 | 33 | 34 | 36 | ↑82% | ↑7% |
| Dwyrain Canol a Gogledd Affrica | 14 | 35 | 46 | 36 | 33 | ↑127% | ↓9% |
| Gorllewin Ewrop nid UE | 8 | 19 | 19 | 21 | 27 | ↑228% | ↑29% |
| Gogledd America | 20 | 26 | 30 | 29 | 24 | ↑23% | ↓15% |
| Affrica i'r De o'r Sahara | 7 | 6 | 9 | 10 | 11 | ↑65% | ↑5% |
| Dwyrain Europ nid UE | 6 | 7 | 6 | 9 | 6 | ↑0% | ↓25% |
| America Ladin a'r Caribi | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 | ↑74% | ↓10% |
| Cyfanswm | 436 | 529 | 539 | 570 | 550 | ↑26 | ↓4 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

## Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul cyrchfan fel canran, 2016–2020

| Blwyddyn | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| UE | 83% | 77% | 73% | 76% | 75% |
| Asia ac Ynysoedd y De | 5% | 5% | 6% | 6% | 7% |
| Dwyrain Canol a Gogledd Affrica | 3% | 7% | 9% | 6% | 6% |
| Gorllewin Ewrop nid UE | 2% | 4% | 3% | 4% | 5% |
| Gogledd America | 5% | 5% | 6% | 5% | 4% |
| Affrica i'r De o'r Sahara | 1% | 1% | 2% | 2% | 2% |
| Dwyrain Europ nid UE | 1% | 1% | 1% | 2% | 1% |
| America Ladin a'r Caribi | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

## Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul cynnyrch (£ miliwn), 2016–2020

| | | | | | | 2020 o'i chymharu â: | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2016 % newid | 2019 % newid |
| Cig a Chynnyrch Cig | 122 | 147 | 142 | 171 | 199 | ↑63% | ↑17% |
| Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar | 89 | 120 | 110 | 133 | 106 | ↑19% | ↓20% |
| Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol | 61 | 73 | 78 | 77 | 74 | ↑20% | ↓4% |
| Ydau a Pharatoadau o Ŷd | 56 | 67 | 82 | 60 | 51 | ↓9% | ↓15% |
| Porthiant i Anifeiliaid | 21 | 28 | 32 | 29 | 32 | ↑55% | ↑10% |
| Bwyd Môr | 27 | 32 | 31 | 33 | 25 | ↓10% | ↓24% |
| Diodydd | 32 | 29 | 26 | 32 | 20 | ↓36% | ↓36% |
| Llysiau a Ffrwythau | 7 | 8 | 16 | 18 | 17 | ↑139% | ↓5% |
| Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl | 9 | 8 | 9 | 7 | 12 | ↑39% | ↑82% |
| Coffi, Te, Coco, Sbeis | 9 | 13 | 12 | 10 | 11 | ↑17% | ↑11% |
| Olew a Braster | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | ↑44% | ↑26% |
| Cyfanswm | 436 | 529 | 539 | 570 | 550 | ↑26% | ↓4% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

## Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul cynnyrch fel canran, 2016–2020

| Blwyddyn | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cig a Chynnyrch Cig | 28% | 28% | 26% | 30% | 36% |
| Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar | 20% | 23% | 20% | 23% | 19% |
| Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol | 14% | 14% | 14% | 14% | 13% |
| Ydau a Pharatoadau o Ŷd | 13% | 13% | 15% | 10% | 9% |
| Porthiant i Anifeiliaid | 5% | 5% | 6% | 5% | 6% |
| Bwyd Môr | 6% | 6% | 6% | 6% | 4% |
| Diodydd | 7% | 6% | 5% | 6% | 4% |
| Llysiau a Ffrwythau | 2% | 1% | 3% | 3% | 3% |
| Siwgr, Paratodau Siwgr a Mêl | 2% | 2% | 2% | 1% | 2% |
| Coffi, Te, Coco, Sbeis | 2% | 2% | 2% | 2% | 2% |
| Olew a Braster | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

# Pwysau allforion bwyd a diod fesul cynnyrch (tunelli) 2016–2020

| Blwyddyn | 2015 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2020 o'i chymharu â: 2016 % newid | 2020 o'i chymharu â: 2019 % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cig a Chynnyrch Cig | 39,700 | 40,600 | 43,500 | 50,400 | 67,700 | ↑70% | ↑34% |
| Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar | 41,400 | 37,100 | 35,600 | 57,600 | 35,600 | ↓14% | ↓38% |
| Ydau a Pharatoadau o Ŷd | 20,500 | 25,200 | 43,700 | 61,300 | 34,900 | ↑70% | ↓43% |
| Diodydd | 39,100 | 36,500 | 34,600 | 42,600 | 26,500 | ↓32% | ↓38% |
| Porthiant i Anifeiliaid | 20,200 | 20,700 | 31,000 | 20,300 | 21,700 | ↑8% | ↑7% |
| Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol | 17,000 | 16,300 | 14,500 | 14,000 | 12,300 | ↓28% | ↓12% |
| Llysiau a Ffrwythau | 3,900 | 3,900 | 6,700 | 8,300 | 8,300 | ↑113% | ↑0% |
| Siwgr, Paratoadau Siwgr a Mêl | 10,800 | 8,200 | 9,900 | 6,700 | 8,200 | ↓25% | ↑23% |
| Bwyd Môr | 7,300 | 9,600 | 5,500 | 7,700 | 6,300 | ↓14% | ↓19% |
| Coffi, Te, Coco, Sbeis | 1,800 | 2,300 | 2,400 | 1,900 | 2,000 | ↑10% | ↑5% |
| Olew a Braster | 1,200 | 1,000 | 900 | 700 | 900 | ↓25% | ↑18% |
| Cyfanswm | 203,000 | 201,400 | 228,300 | 271,400 | 224,300 | ↑11% | ↓17% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

## 10 Gwlad Uchaf ar ôl gwerth allforion bwyd a diod Cymru (£ miliynau), 2016–2020

| Blwyddyn | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2020 o'i chymharu â: 2016 % newid | 2020 o'i chymharu â: 2019 % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweriniaeth Iwerddon | 88 | 96 | 108 | 106 | 106 | ↑20% | 0% |
| Ffrainc | 73 | 77 | 78 | 84 | 72 | ↓1% | ↓14% |
| Yr Iseldiroedd | 33 | 42 | 42 | 63 | 53 | ↑61% | ↓16% |
| Yr Almaen | 39 | 43 | 42 | 42 | 51 | ↑31% | ↑21% |
| Yr Eidal | 23 | 25 | 21 | 27 | 26 | ↑13% | ↓4% |
| Sbaen | 27 | 32 | 33 | 37 | 25 | ↓7% | ↓32% |
| Gwlad Belg | 33 | 38 | 14 | 18 | 21 | ↓36% | ↑17% |
| UDA (gan gynnwys Puerto Rico) | 13 | 17 | 18 | 20 | 20 | ↑54% | 0% |
| Gwlad Pwyl | 7 | 11 | 11 | 10 | 16 | ↑129% | ↑60% |
| Tyrci | 3 | 11 | 10 | 11 | 14 | ↑367% | ↑27% |
| Cyfanswm | 436 | 529 | 539 | 570 | 550 | ↑26 | ↓4 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

## 5 Prif gynhyrchion bwyd a diod o Gymru fesul y 5 prif gyrchfan (gwerth mewn £ miliwn, cyfaint mewn tunelli), 2016–2020

| Cig a Chynnyrch Cig | 2016 | | 2017 | | 2018 | | 2019 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| Ffrainc | 31 | 8,500 | 32 | 7,600 | 33 | 8,400 | 40 | 9,300 | 42 | 14,300 |
| Yr Almaen | 14 | 3,700 | 15 | 3,800 | 14 | 4,800 | 16 | 7,400 | 28 | 5,500 |
| Gweriniaeth Iwerddon | 25 | 10,300 | 25 | 9,600 | 24 | 8,700 | 24 | 9,600 | 21 | 10,000 |
| Yr Iseldiroedd | 9 | 4,500 | 13 | 8,400 | 12 | 10,900 | 14 | 10,100 | 21 | 18,600 |
| Yr Eidal | 7 | 1,400 | 9 | 1,500 | 8 | 1,200 | 12 | 2,100 | 15 | 2,900 |

| Cynnyrch Llaeth ac Wyau Adar | 2016 | | 2017 | | 2018 | | 2019 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| Gweriniaeth Iwerddon | 18 | 8,600 | 20 | 7,700 | 25 | 10,400 | 25 | 20,300 | 24 | 10,900 |
| Twrci | 1 | 200 | 6 | 600 | 6 | 600 | 8 | 600 | 10 | 700 |
| Ffrainc | 14 | 7,400 | 15 | 4,700 | 17 | 5,300 | 17 | 5,800 | 10 | 3,400 |
| Yr Iseldiroedd | 9 | 6,300 | 13 | 6,500 | 10 | 5,300 | 23 | 12,900 | 9 | 5,700 |
| Gwlad Belg | 21 | 7,600 | 24 | 5,800 | 5 | 1,500 | 6 | 2,400 | 7 | 3,200 |

| Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol | 2016 | | 2017 | | 2018 | | 2019 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| UDA (gan gynnwys Puerto Rico) | 7 | 400 | 8 | 200 | 12 | 300 | 11 | 300 | 12 | 300 |
| Gweriniaeth Iwerddon | 8 | 3,000 | 10 | 3,500 | 8 | 2,800 | 8 | 2,700 | 9 | 2,900 |
| Yr Almaen | 8 | 1,600 | 9 | 1,500 | 8 | 1,400 | 8 | 1,200 | 7 | 1,000 |
| Ffrainc | 5 | 2,300 | 7 | 2,300 | 7 | 1,700 | 7 | 1,500 | 7 | 1,500 |
| Awstralia | 2 | 200 | 2 | 200 | 3 | 300 | 4 | 300 | 6 | 400 |

| Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol | 2016 | | 2017 | | 2018 | | 2019 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| Gweriniaeth Iwerddon | 21 | 9,300 | 20 | 10,500 | 24 | 16,600 | 24 | 14,900 | 25 | 14,000 |
| Ffrainc | 10 | 3,000 | 10 | 2,700 | 10 | 2,700 | 9 | 2,500 | 6 | 1,900 |
| Yr Iseldiroedd | 3 | 1,700 | 3 | 1,700 | 5 | 8,400 | 5 | 13,600 | 4 | 3,500 |
| Canada | 3 | 600 | 4 | 800 | 4 | 700 | 5 | 700 | 2 | 500 |
| Awstralia | 2 | 800 | 2 | 900 | 2 | 800 | 2 | 800 | 1 | 1,000 |

| Porthiant i Anifeiliaid | 2016 | | 2017 | | 2018 | | 2019 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau | Gwerth | Pwysau |
| Gweriniaeth Iwerddon | 6 | 6,800 | 10 | 10,300 | 12 | 15,100 | 10 | 9,300 | 10 | 9,300 |
| Yr Almaen | 6 | 2,300 | 6 | 1,700 | 5 | 1,300 | 5 | 1,200 | 5 | 500 |
| Norwy | – | 300 | 1 | 600 | 2 | 1,200 | 2 | 1,000 | 3 | 1,400 |
| Sweden | 2 | 1,800 | 2 | 1,300 | 2 | 1,400 | 2 | 1,100 | 2 | 1,000 |
| Yr Iseldiroedd | 1 | 800 | 1 | 600 | 1 | 900 | 2 | 1,100 | 2 | 1,500 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

## Gwerth allforion bwyd a diod o Gymru fesul gwlad y DU / rhanbarth Lloegr (£ miliwn), 2016–2020

| Blwyydyn | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2020 o'i chymharu â: 2016 % newid | 2019 % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 436 | 529 | 539 | 570 | 550 | ↑26% | ↓4% |
| Yr alban | 5,202 | 5,676 | 5,903 | 6,280 | 5,271 | ↑1% | ↓16% |
| Gogledd Iwerddon | 1,433 | 1,716 | 1,901 | 1,897 | 1,775 | ↑24% | ↓6% |
| Gogledd-ddwyrain | 241 | 245 | 244 | 257 | 238 | ↓1% | ↓7% |
| Gogledd-orllewin | 1,734 | 1,921 | 1,846 | 1,948 | 1,947 | ↑12% | ↑0% |
| Swydd Efrog a'r Humber | 1,010 | 1,125 | 1,173 | 1,241 | 1,232 | ↑22% | ↓1% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 927 | 951 | 993 | 1,088 | 1,022 | ↑10% | ↓6% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 694 | 771 | 816 | 778 | 741 | ↑7% | ↓5% |
| Dwyrain | 1,843 | 1,988 | 1,991 | 2,135 | 2,003 | ↑9% | ↓6% |
| Llundain | 2,611 | 2,863 | 2,990 | 3,041 | 2,636 | ↑1% | ↓13% |
| De-ddwyrain Lloegr | 1,488 | 1,610 | 1,529 | 1,634 | 1,406 | ↓6% | ↓14% |
| De-orllewin Lloegr | 729 | 809 | 811 | 896 | 791 | ↑9% | ↓12% |
| Cyfanswm | 20,289 | 22,201 | 22,897 | 24,054 | 21,677 | ↑7% | ↓10% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau

# Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

**Perthnasedd**

Mae'r bwletin hwn yn cynnwys dadansoddiad o Ystadegau Masnach Rhanbarthol mewn Nwyddau (RTS) CThEM (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi). Mae'r ffigurau i gyd mewn punnoedd Prydeinig ar sail prisiau cyfredol, nid ydynt wedi cael eu haddasu i ystyried chwyddiant neu gyfraddau cyfnewid arian. Mae'r holl ddata yn y briff hwn ar gyfer blynyddoedd calendr o 1 Ionawr i 31 Rhagfyr. Nodwch fod y data ar gyfer y flwyddyn fwyaf diweddar yn ddata dros dro a gallai gael ei newid.

**Defnyddiwyd un ar ddeg o gategorïau SITC rev.4 (Dosbarthiad Masnach Ryngwladol Safonol) fel a ganlyn i roi'r darlun gorau o'r sector Allforion Bwyd a Diod cyfan:**

**00** Anifeiliaid byw heblaw'r rheini yng nghategori 03

**01** Cig a pharatoadau cig (Cafodd categorïau 00 ac 01 eu huno i greu uwch gategori: "Cig a chynnyrch cig")

**02** Cynnyrch llaeth ac wyau adar

**03** Pysgod (gan gynnwys mamaliaid morol), cramenogion, molysgiaid ac infertebratau morol a pharatoadau ohonynt

**04** Ydau a pharatoadau o ŷd

**05** Llysiau a ffrwythau

**06** Siwgr, paratoadau siwgr a mêl

**07** Coffi, te, coco, sbeis a chynnyrch ohonynt

**08** Porthiant i anifeiliaid (heb gynnwys ydau heb eu malu)

**09** Cynnyrch a pharatoadau bwytadwy amrywiol

**11** Diodydd

**41** Olew a braster o anifeiliaid

**42** Braster ac olew llysieuol sefydlog amrwd, wedi'u puro neu eu ffracsiynu (Cafodd categorïau 41 ac 42 eu huno i greu uwch gategori: "Olew a braster)

**DS: ni chafodd categori 43 ("Braster ac olew o anifeiliaid neu lysiau, wedi'u prosesu; cwyr o anifeiliaid neu lysiau; cymysgeddau neu baratoadau anfwytadwy o fraster neu olew o anifeiliaid neu lysiau, n.e.s.") ei gynnwys oherwydd ei fod yn cynnwys bwyd anfwytadwy.**

O'r 13 categori hwn, diffiniwyd 11 o gategorïau cynnyrch, gan i gategorïau 00 ac 01 gael eu crynhoi mewn un categori *Cig a chynnyrch cig*, ac i gategorïau 41 a 42 gael eu crynhoi mewn un categori *Olew a Braster*.

Cafodd "Storfeydd a Darpariadau y tu allan i Ewrop" eu cynnwys ymysg yr ardaloedd allforio cyrchfan er mwyn bod yn gyson â'r hyn a gyhoeddwyd gan CThEM ar lefel genedlaethol (www.uktradeinfo.com).

**Accuracy**

Y data yn y bwletin hwn yw'r Ystadegau Masnach Rhanbarthol (RTS) a gyhoeddir gan CThEM. Mae'r ystadegau'n ymdrin â nwyddau sydd wedi croesi ffiniau'r DU. Mae hyn yn golygu nad yw allforion o Gymru i rannau eraill y DU wedi'u cynnwys ac nid oes elfen wedi'i chynnwys chwaith ar gyfer cydrannau a gynhyrchir yng Nghymru pan mae' cynnyrch gorffenedig yn cael ei orffen mewn rhan arall o'r DU a'i allforio o fanno. Nid yw CThEM yn cael gwybodaeth am nwyddau sy'n symud o fewn y DU yn unig.

Os oes gan fusnes ganghennau mewn mwy nag un rhanbarth, mae masnach y busnes hwnnw'n cael ei dyrannu i bob rhanbarth yn seiliedig ar **ba gyfran o'i weithlu sydd yn y rhanbarth hwnnw**, waeth beth sy'n cael ei allforio.

Mae Cynnyrch a Pharatoadau Bwytadwy Amrywiol yn cynnwys cymysgedd o is-gategorïau gan gynnwys Margarîn a chynnwys Breuo, a pharatoadau bwyd bwytadwy amrywiol fel paratoadau ffrwythau wedi'u coginio, paratoadau bwyd cyfansawdd, paratoadau saws amrywiol, a pharatoadau bwyd at ddefnydd babanod. Gellir gweld dadansoddiad llawn o'r categori yn: **SITC Revision 4** https://unstats.un.org/unsd/publication/SeriesM/SeriesM_34rev4E.pdf